Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Number: 26/2012

www.cymru.gov.uk

# Rhaglen o Ymchwil Weithredu i Hysbysu'r Gwerthusiad o Gyfnod Datblygu'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cryno interim ar gostau proses ddiwygio statudol o ran darpariaeth anghenion addysgol arbennig

# Rhaglen o Ymchwil Weithredu i Hysbysu'r Gwerthusiad o Gyfnod Datblygu'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cryno interim ar gostau proses ddiwygio statudol o ran darpariaeth anghenion addysgol arbennig

**Dr Duncan Holtom gyda Dr Sarah Lloyd-Jones a Jack Watkins**

**Yr Uned Pobl a Gwaith**

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn cynrychioli barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr Karen Bathgate
Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 916297
Ebost: karen.bathgate@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012
978 0 7504 7672 3
**© Hawlfraint y Goron 2012**

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad interim hwn ar gostau'r diwygiad arfaethedig o'r fframwaith statudol i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn rhan o raglen o ymchwil weithredu i hysbysu'r gwerthusiad o brosiectau'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol. Un o amcanion y rhaglen o ymchwil weithredu oedd 'adolygu'r gwaith cyffredinol o reoli a gweithredu'r prosiectau peilot a nodi arferion da y gellid eu defnyddio i hysbysu'r broses o weithredu yn y dyfodol'. Bydd hyn yn cynnwys yr agweddau cyflwyno ymarferol a dadansoddiad o'r costau a'r buddion (LlCC, dogfen heb ei chyhoeddi, a). Yn unol â chais Llywodraeth Cymru, mae'r dadansoddiad costau hwn yn edrych y tu hwnt i'r prosiectau peilot, er mwyn ystyried agweddau pwysig eraill ar y diwygiadau arfaethedig gan ganolbwyntio ar gostau net y broses ddiwygio.

2. Nod yr adroddiad yw nodi costau net y broses arfaethedig o ddiwygio'r fframwaith statudol i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Bydd canlyniadau'r dadansoddiad yn cael eu defnyddio i hysbysu'r broses o ddatblygu'r diwygiadau arfaethedig.

## Cyd-destun: yr angen i ddiwygio

1. Mae adolygiadau o ddarpariaeth addysgol arbennig yng Nghymru, a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (CCC, 2004a, 2006, 2007), Estyn (2003, 2004, 2007), y Comisiwn Archwilio (2002) ac ymgynghoriad cychwynnol Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid (LlCC, 2008) wedi nodi cyfres o wendidau mewn perthynas â phob cam o'r broses o ddiwallu anghenion addysgol arbennig - nodi, asesu, cynllunio a diwygio - ac mewn perthynas â sicrhau ansawdd a gwerthuso'r broses. Mae Ffigur un isod yn rhoi crynodeb o'r gwendidau allweddol.

2. Gall y gwendidau hyn, yn eu tro, gyfrannu at ganlyniadau gwael i lawer o blant a phobl ifanc. Gallant gyfrannu hefyd at anfodlondeb rhieni a gofalwyr ac, mewn rhai achosion, dicter am broblemau megis oedi, ansawdd wael y ddarpariaeth a chymhlethdod y broses. Mae'r gwendidau hefyd yn cyfrannu at ddiffyg gwerth am

arian i'r wladwriaeth. Er enghraifft, gall methu ag ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol olygu bod problemau yn gwaethygu ac o ganlyniad, mae'n ddrutach i fynd i'r afael â hwy. Gall anfodlonrwydd rhieni arwain at anghydfod costus, sy'n golygu bod gormod o amser yn cael ei wastraffu ar waith papur.

3. Mae ystod o amcanion bwriadol y broses ddiwygio wedi'u nodi ac wedi'u crynhoi yn ffigur dau. Dengys y ffigur hwn sut y mae disgwyl i welliannau ym mhob cam o'r broses – nodi, asesu, cynllunio ac adolygu – arwain at amrywiaeth o ganlyniadau canolraddol, er enghraifft gweithio'n well mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr. Yn eu tro, bwriedir i'r rhain arwain at ganlyniadau terfynol neu hirdymor, megis mwy o ymddiriedaeth a hyder yn y system.

**Asesu costau'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol**


4. Yn 2009, sefydlwyd pedwar prosiect peilot (gweler y blwch testun isod) fel rhan o raglen o ymchwil weithredu, gyda'r nod o lywio a galluogi proses o ddiwygio'r fframwaith statudol i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Mae'r asesiad hwn o'r costau yn seiliedig ar waith y prosiectau peilot hyn.

**Prosiectau'r Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol**

- peilot A, i ddatblygu a pheilota model ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Caerffili a Sir y Fflint);
- peilot B, i ddatblygu a pheilota model rhyngddisgyblaethol ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol dwys neu gymhleth (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Thorfaen);
- peilot C, i ddatblygu a pheilota model ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad ydynt yn ddwys neu'n gymhleth (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Benfro a Thorfaen);


- peilot D, i ddatblygu rôl y Cydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig / Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (SENCo/ALNCo) (a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd).

**Ffigur 1: trosolwg o'r gwendidau yn ystod pob cam o'r broses**[1]




[1] Er bod y camau allweddol – nodi, asesu, cynllunio ac adolygu – yn cael eu cyflwyno mewn ffordd linear er mwyn cyfleu'r gwendidau, dylid meddwl amdanynt fel cylch.

**Ffigur 1: canlyniadau bwriadol y broses ddiwygio**




*Canlyniadau yn seiliedig ar y rheiny a nodir yn Direction of Change (LICC, dogfen heb ei chyhoeddi b).*

5. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn ystyried costau o dri math:

- costau sefydlu – costau sefydlu elfennau'r broses ddiwygio;
- costau gweithredu – costau gweithredu elfennau'r broses ddiwygiedig;
- costau ôl-ddilynol – effaith net y diwygiadau ar gostau gwasanaethau eraill.

6. Er mwyn asesu costau net y diwygiadau, ar gyfer pobl un o'r costau uchod, lle bo modd, rydym wedi nodi costau:

- darpariaeth lle bo dyletswydd statudol eisoes, ond bydd angen i adnoddau cyfredol gael eu hadleoli. Nid yw'r costau hyn yn ychwanegol at gostau cyfredol, ond bydd cost yn gysylltiedig â'r cyfle, gan fod yr adnodd wedi'i ddefnyddio mewn ffordd benodol ac mae'r opsiynau eraill ar gyfer ei ddefnyddio wedi'u hepgor[2]. Er enghraifft, os yw athro yn mynychu cwrs hyfforddi, nid yw yn yr ystafell ddosbarth yn addysgu;
- darpariaeth lle bo dyletswydd statudol eisoes, ond lle, gan nad yw'r ddyletswydd wedi'i bodloni'n gyson neu'n llawn, fe allai'r diwygiadau arwain at gynnydd mewn gwariant;
- darpariaeth lle nad oes dyletswydd statudol eisoes;
- arbedion - lle bo modd dadgomisiynu neu ail-aseinio neu resymoli'r ddarpariaeth gyfredol. Gwahaniaethir hefyd rhwng arbedion tymor byr ac arbedion hirdymor, oherwydd mewn rhai achosion efallai na fydd yn bosibl dadgomisiynu'r ddarpariaeth yn y byrdymor, gan olygu y bydd y ddarpariaeth yn cael ei dyblygu dros dro, gyda systemau yn gweithredu ochr yn ochr, tan fod modd dadgomisiynu'r ddarpariaeth gyfredol.

7. Roedd rhai terfynau pwysig i'r dadansoddiad o'r costau:

- Er bod elfennau allweddol y diwygiadau arfaethedig, megis cynlluniau datblygu unigol (IDPs), wedi'u datblygu, nid ydynt wedi'u peilota'n llawn. O ganlyniad, nid

[2] Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM yn argymell wrt hasesu costau (yn yr iaith wreiddiol) 'Costs should be expressed in terms of relevant opportunity costs'. Mae'n sôn am ddefnyddio amser staff mewn ffordd amgen, gan argymell bod angen cyfrifo costau cyflog sylfaenol, pensiwn, yswiriant gwladol a lwfansau (Trysorlys EM, 2011, t. 20). Dyma'r dull o weithio a gaiff ei fabwysiadu yma.

oedd modd mesur y rhan fwyaf o gostau'r diwygiadau yn empeiraidd a rhaid eu hamcangyfrif;

- nid yw'r cynnig ar gyfer diwygio'r fframwaith statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig eto wedi'i lunio'n derfynol, ac nid yw'r broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau tan fis Mehefin 2012. O ganlyniad, mae'r cynigion, a'r costau sy'n ddibynnol arnynt, yn gostau dros dro ac mae'n bosibl y byddant yn newid;
- cafodd y brasamcanion o'r costau eu gwneud gan bobl a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau peilot. Roeddent o blaid y diwygiadau ac felly mae'n bosibl eu bod yn tueddu ar yr ochr optimistaidd wrth amcangyfrifo'r costau[3];
- mae'n ansicr i ba raddau y gellir cyffredinoli bod costau'r gwaith a gynhaliwyd yn yr ardaloedd peilot yn debyg i gostau cynnal y gwaith mewn ardaloedd eraill;
- nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â diwygio'r fframwaith statudol ond nad ydynt yn rhan o'r peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol, er enghraifft, costau sy'n gysylltiedig â diwygio cefnogaeth i deuluoedd, eiriolaeth a datrys cwynion, costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant cychwynnol athrawon (ITT) a datblygu proffesiynol parhaus;
- mewn llawer o achosion, nid oes modd amcangyfrif costau net y broses ddiwygio, gan nad oes data manwl ar gael am gostau'r gwasanaethau cyfredol. Golyga hyn, er enghraifft, er bod modd amcangyfrif y gost o gyflwyno systemau diwygiedig, nid yw bob amser yn bosibl amcangyfrifo'r arbedion a geir yn sgil dadgomisiynu systemau cyfredol.

8. O ganlyniad, gofal piau hi wrth drafod y brasamcanion o'r costau, gan nad ydynt gyfystyr â brasamcan cynhwysfawr o gyfanswm costau'r broses ddiwygio.

9. Mae tablau un a dau yn crynhoi'r costau net a nodwyd hyd yma.

[3] Caiff hyn ei ddisgrifio yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM fel 'optimism bias', sef (yn yr iaith wreiddiol) 'demonstrated, systematic, tendency for project appraisers to be overly optimistic' (Trysorlys EM 2011, 29).

**Tabl 1: costau sefydlu**

Mae'r holl ffigurau yn berthnasol i Gymru yn ei chyfanrwydd ac maent wedi'u talgrynnu i'r £500 agosaf

| Y math o gost | Brasamcan o'r costau sefydlu net | Natur y costau | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| Dyranu adnoddau i ysgolion | Niwtral o ran cost: gall y gwaith gael ei wneud yn fewnol drwy ddefnyddio adnoddau sydd ar gael eisoes | Wedi'u cynnwys mewn dyletswyddau statudol presennol | Dadansoddiad o'r costau yn seiliedig ar brofiad un ALI (Sir Benfro) a gynhaliodd un o'r prosiectau peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN). Nododd Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru bod eu dull o weithio wedi 'arwain at wella canlyniadau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol' (Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru, 2011, 13). Fodd bynnag, mae effaith hyn ar ganlyniadau disgyblion mewn awdurdodau lleol eraill wedi bod yn fwy cymysg yn hanesyddol (SAC, 2007). |
| Meithrin gallu staff yr ysgol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr | Anhysbys: mae cyfanswm costau'r hyfforddiant yn debygol o fod yn uchel ond mae'n bosibl y gellid talu amdano gan ddefnyddio adnoddau presennol a ddyrennir ar gyfer hyfforddiant a datblygu proffesiynol | Wedi'u cynnwys mewn dyletswyddau statudol presennol | Nid oes modd amcangyfrifo cost y broses o feithrin gallu staff ysgolion i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, gan y bydd natur a graddau'r hyfforddiant yn amrywio ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol. Dim ond drwy gynnal archwiliadau o'r angen y byddai modd nodi'r gost hon.<br>Tybir y byddai modd i swyddogion awdurdodau lleol gynnal yr archwiliadau hyn.<br>Po fwyaf effeithiol y bu'r ALlau wrth feithrin gallu (a bodloni eu dyletswyddau statudol) ys isaf yn y byd fydd y gost gyffredinol.<br>Mae nifer o grantiau, adnoddau a mentrau y gellid eu defnyddio, gan gynnwys y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion / y Grant Amddifadedd Disgyblion, wrth ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc, yn ogystal â gallu mewnol y gwasanaethau addysg. |
| Hyfforddiant i'r rheiny a fydd yn cyfrannu at IDP | Cost net resymol yn y byrdymor a niwtral o ran cost yn yr hirdymor: disgwylir i'r hyfforddiant | Wedi'u cynnwys mewn dyletswyddau | Mewn egwyddor, byddai angen hyfforddiant ar bawb sy'n ymwneud â phroses yr IDP (a fyddai'n cynnwys hyfforddiant mewn cynllunio sy'n seiliedig ar yr unigolyn). Er y byddai'r cyfanswm hwn yn uchel, tybir y gallai pedwar hyfforddwr ym mhob awdurdod lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fod yn gymharol fyr a syml (cwrs undydd) a bydd modd ei gyflwyno gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael eisoes. Byddai hyn yn disodli'r hyfforddiant ar gyfer prosesau cynllunio cyfredol, megis y Cynllun Addysg Unigol (IEP). | statudol presennol [4] | (n=cyfanswm o 88) gyflwyno'r cwrs hyfforddi undydd ar gyfrannu at IDP, a'r cwrs hyfforddi deuddydd ar gydgysylltu IDPs (wedi'i amlinellu isod).<br><br>Byddai angen i bob hyfforddwr ddilyn yr hyfforddiant IDP (cwrs undydd) a'r hyfforddiant ar gyfer cydgysylltwyr cefnogi (cwrs deuddydd) a byddai angen dau neu dri diwrnod pellach arnynt er mwyn atgyfnerthu eu profiad. Wedi hynny, byddent yn barod i hyfforddi eraill.<br><br>Mae'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r hyfforddiant yn debygol o fod yn isel. Byddai hyfforddwyr mewnol yn cael eu defnyddio, a lle y bo'n bosibl, byddai'r hyfforddiant yn cael ei gynnal mewn lleoliadau ALI na fyddai'n costio rhyw lawer.<br><br>Yn y tymor hwy, byddai newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn yn cael eu hyfforddi i gyfrannu at yr IDP (ar hyn o bryd, byddent yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio offerynnau megis IEP, a fyddai'n golygu ei fod yn niwtral o ran cost). |
| Hyfforddiant i gydgysylltwyr IDP | Cost net resymol yn y byrdymor a niwtral o ran cost yn yr hirdymor: disgwylir i'r hyfforddiant fod yn gymharol fyr a syml (cwrs undydd) a bydd modd ei gyflwyno gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael eisoes. Byddai hyn yn disodli'r hyfforddiant ar gyfer | Wedi'u cynnwys mewn dyletswyddau statudol presennol | Bydd angen i bawb a fydd yn cydgysylltu IDP fynychu cwrs hyfforddiant dros ddeuddydd. Er y byddai angen i nifer fawr o bobl fynychu'r hyfforddiant hwn, fel yr amlinellir uchod, tybir y gallai pedwar hyfforddwr ym mhob awdurdod lleol (n=cyfanswm o 88) gyflwyno'r cwrs hyfforddi hwn.<br><br>Yn y tymor hwy, byddai newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn yn cael eu hyfforddi i gyfrannu at yr IDP (ar hyn o bryd, byddent yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio offerynnau megis IEP, a fyddai'n golygu ei fod yn niwtral o ran cost). |

[4] Ceir dyletswyddau presennol sy'n cynnwys hyfforddiant, er nad oes unrhywbeth yn pennu'n benodol bod angen cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | prosesau cynllunio cyfredol, megis yr IEP. | | |
| Hyfforddiant i weinyddwyr yr IDP | Cost net resymol iawn yn y byrdymor a niwtral o ran cost yn yr hirdymor: ychydig iawn o hyfforddiant fyddai ei angen a byddai modd ei gyflwyno gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael eisoes. Byddai'r hyfforddiant hwn yn disodli hyfforddiant ar gyfer prosesau datganiadau presennol. | Wedi'u cynnwys mewn dyletswyddau statudol presennol | Disgwylir y byddai modd ailhyfforddi timau datganiadau presennol i wneud y gwaith gweinyddol hwn ac ychydig iawn o hyfforddiant fyddai ei angen arnynt er mwyn cyflawni'r rôl hon. |
| Sefydlu prosesau, strwythurau a phrotocolau cynllunio newydd | Brasamcan o'r costau net: £110,000-220,000. | Wedi'u cynnwys mewn dyletswyddau statudol presennol[5] | Mae'r brasamcan o'r costau yn seiliedig ar raglen beilot a sefydlodd prosesau, systemau a phrotocolau gweithio allweddol mewn pum awdurdod lleol. Ym mhob achos, cafodd y gwaith o sefydlu prosesau, systemau a phrotocolau newydd, sydd â rhywfaint o debygrwydd i'r rheiny a gynigir fel rhan o'r diwygiadau ALN, ei reoli gan gydgysylltydd, a'i oruchwylio gan grŵp llywio aml-asiantaeth. Bydd y prosiectau peilot ALN wedi datblygu'r prosesau, y strwythurau a'r protocolau, megis y broses asesu, cynllunio ac adolygu unigol sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc sydd ag ALN. Nid yw'r costau felly yn ymwneud â'u dylunio a'u datblygu, ond yn hytrach, â rhoi'r prosesau, y strwythurau a'r protocolau hyn ar waith ledled Cymru. Yn hanfodol, mae'n annhebygol iawn y bydd |

[5] Ceir dyletswydd presennol i gynnal prosesau, strwythurau a phrotocolau asesu a chynllunio. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen i'r rhain gael eu diwygio neu eu hadnewyddu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | modd i'r prosesau, y strwythurau a'r protocolau a ddatblygwyd gan y peilot gael eu mabwysiadu 'fel ag y maent' gan awdurdodau lleol eraill a'u cyflwyno heb unrhyw gost. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i'r prosesau, y strwythurau a'r protocolau a ddatblygwyd gan y prosiectau peilot gael eu haddasu at ddibenion y cyd-destun lleol. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn heriol (ac yn gostus) i newid arferion gwaith a diwylliannau cyfredol er mwyn ei gwneud yn bosibl i roi'r prosesau, y strwythurau a'r protocolau hyn ar waith. |
| Paneli aml-asiantaeth a grwpiau llywio | Niwtral o ran cost: adnoddau presennol ar gael ar eu cyfer | Wedi'u cynnwys mewn dyletswyddau statudol presennol | Mae'r costau sy'n gysylltiedig â grwpiau cynllunio strategol aml-asiantaeth a phaneli anghenion cymhleth aml-asiantaeth yn sylweddol o ran amser staff, o ystyried amlder y cyfarfodydd a lefel uchel y rheiny sy'n mynychu. Fodd bynnag, mae grwpiau o'r fath yn bodoli eisoes yn y rhan fwyaf o ardaloedd ac felly ni fyddai hyn yn gost ychwanegol. |
| Sefydlu'r rhwydwaith sicrhau ansawdd a'r fframwaith cefnogi a herio | Costau net rhesymol: mae'r hyfforddiant yn syml ac mae modd ei gynnal yn fewnol gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael eisoes | Wedi'u cynnwys mewn dyletswyddau statudol presennol | Bydd costau TG yn rhad ac am ddim i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ac er bod yna gostau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant, ni fydd angen rhyw lawer o hyfforddiant a byddai modd ei gyflwyno yn fewnol. Yn gryno:<br>- mae angen hanner diwrnod o hyfforddiant ar gyfer SENCos a Chydgysylltydd Asesu, Cofnodi ac Adrodd (ARR) er mwyn eu galluogi i ddefnyddio map darpariaeth. Gallai'r hyfforddiant hwn gael ei gyflwyno gan ddau hyfforddwr ym mhob ALI (n=cyfanswm o 44). Cynigir y gallai athrawon cynghori Awdurdodau Lleol gyflawni'r rôl hon. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen iddynt gael diwrnod o hyfforddiant ar y map darpariaeth a diwrnod arall er mwyn arbrofi a chael profiad o ddefnyddio'r map darpariaeth;<br>- mae hyfforddiant ar ddefnyddio'r 'gridiau canlyniadau' yn fwy cynhwysfawr. Mae prosiect peilot A wedi awgrymu y dylai'r hyfforddiant drafod rhesymeg y gridiau a sut y dylid eu dehongli a'u sgorio. Dylid gwneud hyn fesul dipyn dros gyfnod o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | flwyddyn, gyda brasamcan o dair sesiwn hyfforddi o ddwy i dair awr ym mhob ysgol;<br>- disgwylir na fydd angen unrhyw hyfforddiant ar gyfer mesur capasiti gan ei fod yn hunanesboniadol ac yn seiliedig ar ganllawiau Estyn. |
| Hyfforddi SENCos/ ALNCos | Tybir y bydd y costau net yn £945,000, er y gellir rhannu'r gost dros nifer o flynyddoedd | Dyletswydd newydd (yn ymestyn dyletswyddau presennol sy'n ymwneud â SENCos) | Mae'r costau yn seiliedig ar gost hyfforddi'r rheiny sydd â llai na 12 mis o brofiad, gyda chost o £3,500 y pen. Wedi hynny, bydd y costau yn dibynnu ar nifer y SENCos/ ALNCos sy'n dod i'r proffesiwn, neu sy'n gadael y proffesiwn. |

**Tabl 2: costau gweithredol a chanlyniadaol y broses ddiwygio**

Mae’r holl ffigurau yn berthnasol i Gymru yn ei chyfanrwydd: lle nad oes ffigur wedi’i nodi ar gyfer y costau net neu’r arbedion, nid yw’r ffigur ar gael.

| **Costau yn ymwneud â:** | **Brasamcan o’r costau gweithredu** | **Natur y costau** | **Brasamcanion o’r costau canlyniadol net *** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| System sicrhau ansawdd (QAS) | Cost net resymol: angen i ysgolion ac ALlau ailddyrannu adnoddau sydd ar gael eisoes (a ddylai fod yn niwtral o ran cost felly) a sefydlu strwythur cefnogi canolog. | Wedi’u cynnwys mewn dyletswyddau statudol presennol | Disgwylir iddo fod naill ai’n niwtral o ran cost neu arwain at arbedion: bydd angen i ysgolion ac ALlau ailddyrannu adnoddau er mwyn diwallu anghenion newydd (e.e. lle bo arferion gwael wedi’u nodi). Dylai ysgolion allu ailddyrannu adnoddau oddi wrth ddarpariaeth lai cost-effeithiol a’i gyfeirio tuag at ddarpariaeth fwy cost-effeithiol. | Bydd yn rhaid i ysgolion nad ydynt yn defnyddio’r System Rheoli a Gwybodaeth i Ysgolion (SIMS) addasu’r fframwaith ar gyfer y system ddata y maent yn ei defnyddio.<br><br>Mae angen sefydlu cymorth technegol a chymorth busnes canolog (h.y. cenedlaethol) ar gyfer y QAS. Er y disgwylir y bydd timau TG a thimau cymorth busnes ALlau yn cynnig cefnogaeth o ddydd i ddydd i’r rheiny sy’n defnyddio’r QAS, bydd angen cefnogaeth ganolog os bydd cwestiynau neu broblemau’n codi na fydd modd i dimau’r ALlau eu hateb. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau, dros amser, bod y QAS yn datblygu mewn ffordd gyson. Y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gost flynyddol a fyddai'n gysylltiedig â chydgysylltydd TG i gyflawni'r rôl hon, yw £26,000 |
| Cynllunio unigol (IDPs) | Cynllunio unigol (IDPs) | Yn newid dyletswyddau statudol presennol sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer ALN plentyn neu berson ifanc unigol | Arbedion net: dylai prosesau gweinyddu, cynllunio a darparu mwy effeithlon leihau costau. Dylai ymyriadau fod yn fwy cost-effeithiol. Dylai fod llai o anghydfodau (costus) rhwng rhieni a gofalwyr ac ysgolion ac awdurdodau lleol. | Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd gan bawb sydd ag IEP hefyd IDP (a fydd yn disodli'r IEP), disgwylir yn y byrdymor y bydd angen llai o ddatganiadau. Disgwylir hefyd y bydd IDPs yn disodli'r datganiadau yn y dyfodol.<br><br>Mae costau IDPs yn uwch na chostau IEPs gan fod angen mwy o wybodaeth a chan fod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gynllunio sy'n seiliedig ar yr unigolyn. Mae hyn yn debygol o gydbwyso'r arbedion a geir yn sgil gwell effeithlonrwydd wrth lunio'r cynlluniau.<br><br>Mae angen sefydlu cymorth technegol a chymorth busnes canolog (h.y. cenedlaethol) ar gyfer yr IDP ar-lein. Er y disgwylir y bydd timau TG a thimau cymorth busnes ALlau yn cynnig cefnogaeth o ddydd i ddydd i'r rheiny sy'n defnyddio'r IDP, bydd angen cefnogaeth ganolog os bydd cwestiynau neu broblemau'n codi na fydd modd i dimau'r ALlau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | eu hateb. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau, dros amser, bod yr IDP yn datblygu mewn ffordd gyson, er enghraifft drwy ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau am newidiadau i'r IDP gael eu cydgysylltu, er mwyn osgoi sefyllfa lle bo IDPs gwahanol yn esblygu mewn gwahanol ardaloedd) gallai hyn ddigwydd pe bai Awdurdod Lleol neu gonsortia yn gwneud newidiadau i'r IDP yn eu hardal hwy). |
| Adolygu'r IDPs | Disgwylir iddo arwain at arbedion net: Mae IDPs yn debygol o fod yn llai costus i'w hadolygu nag IEPs neu ddatganiadau. | Newid dyletswyddau statudol presennol sy'n ymwneud ag adolygu | Arbedion net: dylai prosesau gweinyddu, cynllunio a darparu mwy effeithlon leihau costau, a dylai proses adolygu fwy cadarn wneud y ddarpariaeth yn fwy cost-effeithiol | Er ei bod yn debygol y bydd cyfarfodydd IDP yn cael eu cynnal yr un mor aml â chyfarfodydd IEP, ar ôl eu sefydlu, bydd angen llai o amser i'w diweddaru nag IEPs a datganiadau, ac maent yn haws i'r diweddaru a'u newid, gan awgrymu y bydd yn llai costus i adolygu IDP. |
| Rôl y SENCo / ALNCo | Cynnydd yn y costau net | Dyletswydd newydd (ymestyn dyletswyddau presennol o dan y cod ymarfer sy'n berthnasol i SENCos) | Arbedion net: disgwylir iddo gyfrannu at wella ansawdd y ddarpariaeth, a ddylai ei gwneud yn fwy cost-effeithiol. Dylai hefyd esgor ar bartneriaethau gwell gyda rhieni ac felly llai o anghydfodau costus. | Os yw'n ofynnol i SENCos / ALNCos ddod yn aelodau o'r SMT mewn ysgolion cynradd, gallai hyn gynyddu'r gost o gyflogi SENCos / ALNCos nad ydynt yn rhan o'r SMT ar hyn o bryd. Mae peilot D wedi ystyried clystyru, lle bo ysgolion yn rhannu'r ALNCo. Pe bai'r arfer hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai cyfanswm y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | SENCos / ALNCos yn lleihau. |
| Sefydlu gwasanaeth gweithwyr allweddol heb eu dynodi | Brasamcan o'r gost net: £880,000-1,144,000 y flwyddyn. | Ymestyn dyletswyddau statudol presennol[6] | Potensial ar gyfer arbedion, ond nid yw hyn wedi'i brofi: dylai wella'r broses gynllunio a'r canlyniadau, yn ogystal â lleihau anghydfodau â theuluoedd. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o'r dadansoddiad sydd ar ddod o'r prosiectau peilot ar weithwyr allweddol (Holtom et al., ar ddod a) yn awgrymu bod yr arbedion canlyniadol net yn debygol o fod yn fach. | Mae'r brasamcanion o'r costau wedi'u seilio ar gost rheolwr gwasanaethau gweithio allweddol a chefnogaeth weinyddol. Mae gwasanaethau gweithio allweddol ar gael eisoes i rai plant a phobl ifanc mewn rhai ardaloedd, ac mae'n bosibl y byddai modd ymestyn y rhain, gan leihau'r costau net.<br>Tybir y gallai cydgysylltwyr IDP a phobl broffesiynol eraill yn y maes fabwysiadu rôl gweithwyr allweddol heb eu dynodi; y gallai'r cyfarfodydd / proses gynllunio IDP drafod cynllunio gofal aml-asiantaeth adolygu cyfarfodydd i hwyluso'r broses gynllunio ar lefel achosion unigol. Mae'n bosibl hefyd y gallai rôl y grŵp llywio aml-asiantaeth (a fyddai'n goruchwylio'r gwasanaeth) gael ei gyflawni gan y paneli anghenion cymhleth presennol. Byddai gweithwyr allweddol hefyd yn gyfrifol am fynd i'r afael â rhwystrau i gydweithio a nodir ganddynt a'r rheolwr gwasanaeth. |

[6] Mae dyletswyddau cyffredinol cyfredol yn ymwneud â chefnogaeth, ond nid ydynt yn ymwneud yn benodol â gweithio allweddol,er bod y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (CCC, 2005) yn cynnwys dyletswyddau yn ymwneud â gweithwyr allweddol i bobl ifanc anabl 14-25 oed.

* Mae’r asesiadau hyn yn seiliedig ar y cyfraniad y mae disgwyl i bob elfen o’r pecyn diwygio ei wneud i’r canlyniadau, megis gwella’r ddarpariaeth a’r costau dilynol. Mae’n bwysig cofio y bydd elfennau eraill hefyd yn cyfrannu at y canlyniadau hyn a’r costau dilynol.

**Casgliadau**

10. Canfu'r adroddiad terfynol ar gyfnod datblygu prosiectau'r peilot anghenion dysgu ychwanegol (Holtom et al, ar ddod b), gonsensws eang nad oes modd cynnal y sefyllfa bresennol. Canfu hefyd nad yw'r system gyfredol yn gost-effeithiol, yn arbennig mewn perthynas â datganiadau. Mae angen ei diwygio. Nid yw'r system yn llwyddo i ddiwallu anghenion llawer o blant a phobl ifanc, eu rheini a'u gofalwyr, ac mae'n gostus, yn gymhleth ac yn fiwrocrataidd i'w gweinyddu. O ganlyniad, ceir achos cadarn dros ei diwygio, cyhyd â bo'r diwygiadau arfaethedig yn gost-effeithiol.

11. Mae'r dadansoddiad costau interim hwn yn nodi bod costau 'sefydlu' elfennau allweddol o'r broses ddiwygio, yn arbennig mewn perthynas â hyfforddi ALNCos, yn debygol o fod yn sylweddol.

12. Ar ôl ei sefydlu, mae'r dadansoddiad yn awgrymu y bydd y costau yn debyg iawn i gostau'r trefniadau presennol, ac mae'n bosibl y bydd yn arwain at arbedion net mewn rhai meysydd. Mae'n debygol y bydd y system newydd yn golygu bod mwy o anghenion yn cael eu nodi, a bydd hyn yn ei dro yn cynyddu'r galw am y gwasanaethau. Fodd bynnag, disgwylir i hyn gael ei gydbwyso gan y ffaith bod anghenion yn cael eu nodi'n gynt, a bydd y broses o weinyddu, cynllunio a darparu ar gyfer yr anghenion hynny yn well hefyd. Bydd hyn yn golygu y bydd modd diwallu mwy o anghenion ac y bydd modd iddynt gael eu diwallu mewn ffordd fwy effeithiol, heb gynyddu'r gost gyffredinol i'r system yn ei chyfanrwydd.

13. Wrth asesu'r costau, mae'n hanfodol meddwl yn nhermau 'systemau', gan fod angen cyfrifo'r costau net ar draws y system (yn hytrach nag ar gyfer gwasanaethau unigol), a thros amser. Golyga hyn fod angen dadansoddi'r system yn ei chyfanrwydd, gan edrych, er enghraifft, ar sut y gall y penderfyniadau a wneir gan un gwasanaeth effeithio ar y costau sydd ar wasanaeth arall[7]. Mae hefyd yn bwysig cofio'r effaith y gall amser ei chael. Er enghraifft, gall ymyrryd yn gynt a chynllunio'n well, sef dau o brif nodau'r broses ddiwygio, arwain at gostau uwch yn y byrdymor ond arbed arian yn y tymor hwy.

[7] Gellir gwrthgyferbynnu'r dull hwn gyda ymagwedd sydd, er enghraifft, yn edrych ar gost pob gwasanaeth yn unigol ac ar wahân i wasanaethau eraill.

14. Yn gyffredinol, nid yw'r diwygiadau arfaethedig yn gosod dyletswyddau newydd ar ysgolion, awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd. Bydd modd i lawer o'r costau gael eu talu gan ddefnyddio grantiau presennol a/neu ailddyrannu neu ail-alinio strwythurau a rolau presennol. Lle bo dyletswyddau newydd yn cael eu pennu, mae'r rhain ar y cyfan yn ymestyn neu'n newid dyletswyddau cyfredol yn hytrach na chreu dyletswyddau cwbl newydd.

**Argymhellion ar gyfer gwaith pellach**

15. Dylid defnyddio cyfnod peilot y prosiectau ALN er mwyn cynnig tystiolaeth empeiraidd ychwanegol o gostau sefydlu, gweithredu ac ôl-ddilynol y system sicrhau ansawdd, costau'r prosesau cynllunio ac adolygu unigol a chostau sefydlu rôl yr ALNCo. Lle y bo'n bosibl, dylid dadansoddi systemau er mwyn ystyried effaith elfennau gwahanol y diwygiadau ar ei gilydd.

16. Er mwyn cyfrifo'r costau net yn fwy cywir, dylid comisiynu archwiliadau o'r ddarpariaeth a'r anghenion cyfredol, a dylid mynd ati i asesu'n drylwyr y cwmpas ar gyfer ail-aseinio neu ddadgomisiynu gwasanaethau cyfredol.

17. Dylid ystyried y costau sy'n gysylltiedig ag agweddau eraill y diwygiadau arfaethedig, megis diwygio'r gwasanaethau cefnogaeth a gwybodaeth i deuluoedd, y trefniadau eiriolaeth a datrys cwynion a'r costau sy'n gysylltiedig ag ailffurfio hyfforddiant cychwynnol athrawon (ITT) a datblygiad proffesiynol parhaus.

**Llyfryddiaeth**


Y Comisiwn Archwilio (2002) '*Special Educational Needs: A Mainstream Issue'*, y Comisiwn Archwilio ar gyfer awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr, Llundain. Ar gael drwy: http://www.audit-commission.gov.uk/nationalstudies/localgov/Pages/senmainstreamissue.aspx

Estyn (2003) '*Support for Children with Special Educational Needs: An Estyn Overview',* Estyn, Caerdydd. Ar gael drwy*:* http://www.estyn.co.uk/publications/Support_children_SEN.pdf

Estyn (2004) '*Best Practice in the Development of Statements of Special Educational Needs and Delivery by Schools of the Action Agreed',* Estyn, Caerdydd. Ar gael drwy:
http://www.estyn.gov.uk/publications/Remit_1.pdf

Estyn (2007) '*Evaluating Outcomes for Children and Young People with Additional Learning Needs',* Estyn, Caerdydd. Ar gael drwy: http://www.estyn.org.uk/publications/Evaluating_outcomes_for_children_and_young_people_with_additional_learning_needs_2007.pdf

Estyn and Wales Audit Office (2011) '*A Report on the Quality of Local Authority Education Services for Children and Young People in Pembrokeshire County Council',* Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy: http://www.estyn.gov.uk/download/publication/209937/inspection-report-pembrokeshire-laescyp-eng-2011-english-only/

Trysorlys EM (2011) *'The Green Book: Appraisal and Evaluation in Central Government,* The Stationary Office, Llundain. Ar gael drwy: http://www.hm-treasury.gov.uk/d/green_book_complete.pdf

Holtom, D., Lloyd-Jones, S. Bowen, R a Watkins, J. (a) *'Transition Key Working: A Cost Benefit Analysis of 5 Pilot Projects in Wales',* papur heb ei gyhoeddi ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Holtom, D., Lloyd-Jones, S. a Watkins, J. (b) *'Programme of Action Research to Inform Evaluation of the Additional Learning Needs Pilot Developmental Phase: final report',* papur heb ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2004a) '*Education and Lifelong Learning Committee, Policy Review of Special Educational Needs Part 1: Early Identification and Intervention'*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy: http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000026476.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2004b) *'Special Educational Needs Code of Practice for Wales',* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/specialeduneedscop/?lang=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2005) '*National Service Framework for Children, Young People and Maternity Services in Wale*s', Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy: http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/441/33519%20Main%20Doc%20Complete%20LoRes.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2006) '*Education and Lifelong Learning and Skills Committee, Policy Review of Special Educational Needs: Part 2: Statutory Assessment Framework (Statementing), May 2006',* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy: http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000044329.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2007) *'Education, Lifelong Learning and Skills Committee, Policy Review of Additional Educational Needs: Part 3: Transition*, *March 2007',* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy: http://www.assemblywales.org/a418a2221ff4ec27fb94740522d38822.pdf

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) '*Statements or Something Better? Summary of Progress to Date and the Next Steps',* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd. Ar

gael drwy:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/recommendationellscommittee/?lang=en

Llywodraeth Cynulliad Cymru (dogfen heb ei chyhoeddi a) '*Specification for the Development of an Evaluation Framework for the Additional Learning Needs Pilot Scheme',* papur heb ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (dogfen heb ei chyhoeddi b) **'***Reform of the Statutory Framework for Children and Young People with Additional Learning Needs in Wales: Direction of Change',* papur heb ei gyhoeddi.

Swyddfa Archwilio Cymru (2007) *'Good Practice in Special Education Needs Funding',* Swyddfa Archwilio Cymru, Caerdydd. Ar gael drwy:
http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/SEN_funding_eng.pdf